



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Tregarth
Tregarth
Bangor
Gwynedd
LL57 4PG**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2014

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Tregarth ym mhentref gwledig Tregarth sydd ryw bum milltir o ddinas Bangor yn sir Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol wedi amrywio rhwng 98 a 138 dros y pum mlynedd diwethaf. Mae 138 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd yn cynnwys 15 o ddisgyblion meithrin. Mae'r plant yn cael eu haddysgu mewn chwe dosbarth, yn cynnwys tri dosbarth cymysg eu hoedran.

Mae 17% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 21%. Daw tua 41% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 33% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae nifer bach o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn Prydeinig, gydag ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig cymysg.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2007. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2013. Roedd hi'n ddirprwy bennaeth yn yr ysgol cyn hynny. Mae'r pennaeth yn bennaeth ysgol arall gyfagos hefyd ac yn rhannu ei hamser rhwng y ddwy ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Tregarth yn 2013-2014 yw £3,539. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,616, a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Tregarth yn yr 86ed safle o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd :

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol o oed cynnar iawn;
- bod ymddygiad a medrau cymdeithasol rhan fwyaf y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol;
- bod staff yn cynllunio profiadau diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion; a
- bod safon yr addysgu'n gyson dda.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth newydd weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, a'i bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion;
- bod newidiadau a datblygiadau dros gyfnod- byr yn dangos ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau
- bod holl staff yr ysgol yn cyd-weithio'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant yr ysgol;
- bod prosesau hunan-arfarnu yn drwyadl ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn;
- bod gan yr ysgol dargedau clir a chynllun gwella pwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol; a
- bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn briodol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Argymhellion

- A1 Gwella cyflawniad y disgyblion mwyaf galluog yn eu defnydd o'u medrau rhif ar draws y cwricwlwm
- A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i bob disgybl gyrraedd ei botensial
- A3 Gwella sylwadau ysgrifenedig athrawon er mwyn galluogi disgyblion cyfnod allweddol 2 i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
- A4 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i athrawon ac oedolion eraill. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn hyderus wrth siarad a thrafod. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn medru ymestyn eu syniadau a'u barn yn effeithiol i gefnogi eu safbwyntiau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, gall llawer o'r disgyblion drafod a darllen storïau adnabyddus yn dda. Mae llawer yn ail-ddweud prif ddisgyddiadau storïau'n gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio strategaethau darllen yn effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen eu gwaith yn hyderus iawn ar draws y cwricwlwm. Mae llawer yn darllen yn ystyrlon, gan fynegi barn am lyfrau, a disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y stori. Mae llawer yn defnyddio medrau ymchwilio cadarn i ymholi a darganfod gwybodaeth briodol o lyfrau ac wrth ddefnyddio'r rhyngwyd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ffurfiau ac yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau i fynegi eu syniadau a'u teimladau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o ramadeg, sillafu ac atalnodi yn effeithiol wrth ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm a'r meysydd dysgu. Mae eu gwaith yn gyson daclus ac wedi ei gyflwyno'n dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno i ffurf graff. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Enghraifft o hyn yw eu gwaith wrth fesur y cawr Bendigeidfran.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mathemateg llawer o'r disgyblion yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd priodol o ddata ar draws y cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw'r ffordd maent yn cofnodi a chyflwyno gwybodaeth am efaciwis yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf abl yn ymestyn eu medrau rhif yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a gallant weithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau neu grwpiau i ymateb yn briodol i dasg. Mae mwyafrif o ddisgyblion wedi datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n medru llywio'u tasgau eu hunain. Yn 2012 a 2013, mae cyfran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a

Chymru. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwylidig wedi bod yn is ym mhob maes dysgu o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru ac eithrio datblygiad mathemategol.

O gymharu canlyniadau'r ysgol â pherfformiad ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol wedi perfformio yn y canran is ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r ysgol mewn mathemateg yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y canran uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mewn Saesneg, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig yn agos i gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mewn gwyddoniaeth, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig yn uwch na Chymru ac yn agos i gyfartaledd y teulu. Mewn Cymraeg, roedd y gyfran yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ac yn sylweddol is mewn mathemateg.

Yn 2013, roedd y ganran a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwylidig yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn is mewn Saesneg. Mae'r tueddiadau hyn yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ar y lefel ddisgwylidig, gan mwyaf, ymhlith y 50% is neu'r 25% isaf yn 2013 ond yn cymharu'n fwy ffafriol yn y ddwy flynedd flaenorol. Ar y lefel uwch, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf neu'r 50% uwch ym mwyafrif y dangosyddion dros gyfnod o bedair blynedd.

Lles: Da

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i ddatblygu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd, yfed a bwyta'n iach. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn y gwersi ac yn ystod gweithgareddau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi'n effeithiol yn y gwersi, ac mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae gallu'r mwyafrif i fod yn annibynnol yn dda ac mae llawer o'r plant hynaf yn dangos gofal wrth ymdrin â phlant eraill.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion ffyrdd o leisio barn yn effeithiol. Mae eu gwaith ar ddatblygu "Os Mets" wedi arwain at greu ysgol gyfeillgar lle mae pawb yn cymryd gofal o'i gilydd.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned leol a cheir cyswllt cryf gyda llawer o sefydliadau ac unigolion lleol. Enghraifft o hyn yw'r ymweliadau cyson i gynnal gwasanaethau yn yr Eglwys. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r profiadau ac yn datblygu ystod dda o fedrau cymdeithasol a moesol.

Mae lefelau presenoldeb y disgyblion mewn tair o'r pedair blynedd rhwng 2009 a 2012 wedi gosod yr ysgol yn naill ai'r 25% uchaf neu'r 50% uwch.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae defnydd da o ymwelwyr ac ymweliadau niferus yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae cynlluniau priodol i ddatblygu medrau'r disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio bwriadus a'r defnydd da o adnoddau pwrpasol yn y Cyfnod Sylfaen yn atgyfnerthu hyn. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i hybu medrau llythrennedd a medrau TGCh y disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynllunio tymor byr yn sicrhau bod y disgyblion yn ymestyn eu medrau rhif yn gyson, yn arbennig y disgyblion mwy abl.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael ei integreiddio'n dda i agweddau ar draws y cwricwlwm. Mae llwyddiant yr ysgol yn gweithredu Siarter Iaith Gwynedd yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol o fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn rhoi cyfleoedd effeithiol i'r holl ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn effeithiol trwy weithgareddau'r pwyllgor eco. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang wedi datblygu'n dda iawn ac mae'r cysylltiadau a Siapan a Ghana yn enghreifftiau rhagorol.

Addysgu: Da

Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn cynllunio'u gwersi yn ofalus gydag amcanion dysgu clir. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn cyflwyno'r gwaith yn dda ac mae'r dysgu yn symud ymlaen ar gyflymdra effeithiol. Yn yr ychydig o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau yn cynnig her ddigonol i ymestyn y disgyblion mwy abl.

Gwna'r cymorthyddion dysgu gyfraniad gwerthfawr yn yr ystafell dosbarth ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol. Mae pob un o'r staff addysgu yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn dda.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi ymsefydlu'n briodol yng ngweithdrefnau'r ysgol. Defnyddia'r athrawon ystod eang o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol gan roi cyfle i'r disgyblion hynaf fyfyrion a chywiro gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob amser o gymorth i'r disgyblion adnabod y camau nesaf i wella safon eu gwaith.

Mae asesu parhaus yn nodwedd gref drwy'r ysgol. Mae disgyblion ac athrawon yn cytuno ar dargedau yn dymhorol ac mae rhain yn cael eu rhannu a'u trafod gyda rhieni. Mae'r athrawon yn gyffredinol yn trafod rhain yn rheolaidd, ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol ohonynt ar hyd y tymor.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob plentyn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol bolisiau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod eang a rheolaidd o fentrau priodol sy'n annog bwyta ac yfed yn iach, ac ymarfer corff.

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n darparu amgylchedd diogel i'r disgyblion. Mae'r staff yn monitro lles disgyblion yn dda iawn, ac yn gweithredu'n gyflym ac yn sensitif mewn ymateb i bryderon. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad da i'r staff ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant a sicrhau lles disgyblion. Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd ac mae gan yr ysgol strategaethau i hybu hyn. Mae strategaethau clir ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn eu lle. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Gwneir defnydd da o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol ac mae'r disgyblion yn elwa o'r gynhaliadaeth hon. Mae gweithgareddau ar y cyd gyda'r eglwys leol ac ysgolion eraill yn atgyfnerthu hyn ymhellach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar eu cyfer. Mae'r cynlluniau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau i sicrhau bod anghenion dysgu yn cael eu bodloni. Mae ansawdd, ymroddiad ac arbenigedd aelodau o staff cefnogi yr ysgol o safon uchel.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae polisiau a gweithdrefnau priodol yn sicrhau mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r ystod o ardaloedd dysgu yn darparu cyfleusterau ac amgylchedd symbylol sy'n darparu'n dda ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae'r holl gyfleusterau yn cael eu defnyddio'n bwrpasol ac yn hygyrch i'r disgyblion, staff ac ymwelwyr.

Mae holl aelodau'r ysgol yn dangos parch i'w gilydd. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydarddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy hyrwyddo gwerthoedd personol a chymdeithasol yn llwyddiannus.

Mae digon o adnoddau sy'n gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion, a gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol ohonynt. Mae'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn lliwgar, ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu cynnal a chadw yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir ac mae'n arwain yr ysgol yn dda iawn. Mae wedi sefydlu tîm brwdfrydig a gweithgar sy'n rhannu'r un weledigaeth. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ynglŷn â'r athrawon a'r disgyblion. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

Gwella'r ysgol trwy godi safonau disgyblion ymhellach yw prif ffocws y cynllunio strategol. Mae'n ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol fel asesu ar gyfer dysgu a blaenoriaethau lleol fel Siarter Iaith Gwynedd i hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn dda. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae rôl monitro'r arweinyddion yn datblygu'n briodol ac yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Enghraifft fuddiol o effaith y gwaith monitro yw'r gwelliannau ar lawr y dosbarth ar draws yr ysgol. Mae'r cydlynwyr wedi paratoi proffiliau yn cynnwys enghreifftiau o waith y disgyblion, sydd o gymorth iddynt fonitro safonau cyrhaeddiad trwy'r ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ymateb i ofynion statudol. Maent yn dangos dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu ac yn genedlaethol, ond nid yw eu rôl yn herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu digon.

Gwella ansawdd: Da

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu mwyafrif o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae gan yr athrawon a'r llywodraethwyr wybodaeth dda am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r broses yn cynnwys adolygiad priodol o agweddau ar fywyd yr ysgol a sut mae'r rhain yn effeithio ar safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer casglu barn rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron ac mae'n rhoi ystyriaeth addas i'w sylwadau ac awgrymiadau.

Mae trefniadau monitro'r ysgol yn datblygu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n briodol at y broses hunanarfarnu. Y pennaeth sydd yn bennaf gyfrifol am fonitro gwaith yr ysgol ac mae rôl y cydlynwyr yn monitro ansawdd yr addysgu a chraffu ar waith y

disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r adroddiadau monitro diweddar yn dangos yn gywir beth yw cryfderau'r ysgol ac yn nodi'r camau er mwyn gwelliant yn glir.

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli ddarlun clir a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae data perfformiad yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd ac effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau. Mae'r athrawon yn deall y rhesymau sydd yn sail i'r blaenoriaethau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb wrth eu gweithredu. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau. Mae trefniadau addas yn eu lle i arfarnu gwelliant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod addas o bartneriaid. Ceir partneriaeth gref gyda rhieni. Cânt eu hysbysu'n dda ac maent yn teimlo bod croeso da iddynt yn yr ysgol. Mae cysylltiadau cymunedol da yn bodoli gyda llawer o sefydliadau, cymdeithasau, eglwysi ac elusennau lleol a chenedlaethol hefyd, sy'n dylanwadu'n dda ar ansawdd profiadau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'r ysgol uwchradd i gymedroli a safoni gwaith yn y pynciau craidd a chyflwyno prosiectau ar y cyd. Mae athrawon yn arwain a chydweithio'n agos ag ysgolion cynradd lleol i rannu profiadau o ran datblygu staff a chymorthyddion. Rhennir syniadau a dulliau cyflwyno amrywiol mewn pynciau fel rhifedd a llythrennedd ac mae hyn wedi cael effaith gryf ar godi safonau'r disgyblion.

Mae trefniadau pontio priodol gyda chylch meithrin lleol yn caniatáu trosglwyddiad llyfn i'r ysgol. Yn yr un modd, mae trefniadau priodol gydag Ysgol Dyffryn Ogwen i hyrwyddo gofal bugeiliol effeithiol adeg trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r bartneriaeth gref gyda nifer o sefydliadau fel Prifysgol Bangor a Choleg Menai sy'n hyfforddi athrawon a chymorthyddion yn gymorth i ddatblygu ymwybyddiaeth y staff o fethodoleg dysgu ac addysgu gyfoes.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau pwysig gyda mudiadau chwaraeon, cymdeithasol ac elusennol yr ardal ac mae hyn yn gwella deilliannau lles a moesol y disgyblion. Mae hefyd yn hyrwyddo'n effeithiol eu hymdeimlad o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan arweinwyr gynlluniau ariannol cadarn, wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion cyfredol. Mae is-bwyllgor cyllid yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ei phryniant a defnydd o adnoddau'n ofalus. Yn dilyn cyfnod o lefelau uchel o danwariant, mae'r ysgol wedi gweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar gynllun penodol i leihau'r tanwariant eleni. Mae'r ysgol wedi addasu ei phenderfyniadau gwario yn briodol yng ngoleuni newidiadau yn niferoedd y

disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon ag arbenigedd i gyflwyno cwricwlwm cyflawn ac i fodloni anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol yn llawn. Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd cyfredol sy'n cyfateb yn briodol i'w rolau. Mae gan athrawon gymwysterau da ac maent yn meddu ar ystod addas o arbenigedd ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol ac fe gânt effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad pob disgybl.

Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol, ond nid yw'r staff ategol yn rhan o'r broses ar hyn o bryd. Mae rheolwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant addas, ac mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol iawn o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd hyn hefyd yn wir am y canran a gyflawnodd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, datblygiad mathemategol, a datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg

Yn 2012, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen a'r deilliant disgwylidig yn y meysydd dysgu yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwylidig (deilliant 6) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ond yn uwch mewn datblygiad mathemategol.

O gymharu canlyniadau'r ysgol yn 2012 a 2013 ar gyfer y deilliant disgwylidig ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ym mhob maes.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r deilliant uwch (deilliant 6) â pherfformiad ysgolion tebyg o ran yr hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod gan mwyaf ymhlith y 50% is.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mewn Saesneg, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig yn agos i gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mewn gwyddoniaeth, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig yn uwch na Chymru ac yn agos i gyfartaledd y teulu. Mewn Cymraeg, roedd y gyfran yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ac yn sylweddol is mewn mathemateg. Yn 2013, roedd y ganran a gyflawnodd yn uwch na'r lefel ddisgwylidig yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn is mewn Saesneg. Mae'r tueddiadau hyn yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ar y lefel ddisgwylidig, gan mwyaf, ymhlith y 50% is neu'r 25% isaf yn 2013 ond yn cymharu'n fwy ffafriol yn y ddwy flynedd flaenorol. Ar y lefel uwch, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf neu'r 50% uwch ym mwyafrif y dangosyddion dros gyfnod o bedair blynedd.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu cyflawniadau disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda gweddill y garfan.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	83	83 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	83	82 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	83	81 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	83	82 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	83	79 95%	4 5%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	83	82 99%	1 1%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	83	82 99%	1 1%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	83	83 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	83	75 90%	8 10%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	83	80 96%	3 4%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	83	59 71%	24 29%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		78%	22%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	83	75 90%	8 10%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	66	30 45%	33 50%	1 2%	2 3%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	67	37 55%	26 39%	3 4%	1 1%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	66	36 55%	29 44%	1 2%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	67	24 36%	37 55%	3 4%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	0%		
Pupils behave well in school.	65	18 28%	41 63%	1 2%	3 5%	2	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	67	25 37%	38 57%	3 4%	1 1%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	67	31 46%	34 51%	1 1%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	66	20 30%	33 50%	7 11%	0 0%	6	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	66	24 36%	35 53%	1 2%	4 6%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	67	32 48%	31 46%	2 3%	1 1%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	66	45 68%	21 32%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	64	28 44%	23 36%	4 6%	2 3%	7	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	66	29 44%	33 50%	4 6%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	67	36 54%	25 37%	3 4%	1 1%	2	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	67	33 49%	27 40%	4 6%	1 1%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	65	29 45%	32 49%	2 3%	0 0%	2	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		55%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	59	18 31%	22 37%	3 5%	0 0%	16	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	65	24 37%	34 52%	3 5%	1 2%	3	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	67	33 49%	29 43%	3 4%	1 1%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	33%	3%	1%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Carolyn J Thomas	Arolygydd Cofnodol
David Davies	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Eifion Watkins	Arolygydd Cymheiriaid
Alison Halliday	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.